# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD HYDREF 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 18fed o Hydref, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts, Cae Gors** |
| **CADEIRYDD** | **Arwyn Herald Roberts** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Arwyn Herald Roberts (**AHR)** bawb i'r cyfarfod.<br><br>**<u>Yn bresennol heno roedd:</u>**<br><br>Arwyn Herald Roberts (**AHR);** Dyfan Tomos **(DT)**; Gwilym Williams **(GLW)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Adam Summers **(AS);** Nerys Evans **(NE);** Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** Tom Ellis **(TE)**; Nia Gruffydd; **(NG);** Jason Hunt **(JH);** Michelle Williams **(MW)** ac Gillian Thomas **(y Clerc).** |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:</u>**<br><br>Cyng. Huw Rowlands **(HR)** |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MEDI 2023 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GVT gydag AS yn eilio<br><br>**a) <u>MEINCIAU GLAN RHYD, SGWÂR BACH RHOSISAF A SGWÂR RHOSISAF</u>**<br>NE -Cais gan NE i ddarganfod perchennog y sgwâr tir ble mae'r fainc yn Rhosisaf - cymydog wedi gosod arwydd 'dônt park on the grass'.<br>Adroddodd HR mai dim ond cot o baent sydd ei angen ar y meinciau – Gwirfoddololodd AMJ ac HR baratoi'r gwaith – y clerc i drefnu.<br><br>**b) <u>TE - CAIS AM SAFLE BWS I LANWNDA</u>**<br>Adroddodd y clerc ymateb roedd y Cyngor Sir wedi ei dderbyn gan Berwyn Coaches a Chlynnog a Threfor yn cadarnhau nad oeddent wedi mynd i mewn i'r pentref ers y mileniwm. Erbyn hyn nid yw'r pentref yn addas i fws oherwydd yr holl geir sydd wedi parcio. Erbyn hyn mae'r gysgodfa wedi ei leoli ar y brif ffordd. Wrth edrych ar y ffigyrau mae'n ymddengys bod y rhan fwyaf o deithwyr yn dod o'r feithrinfa ac nid o'r pentref. Felly ni fyddent yn newid i fynd drwy'r pentref. Nodwyd bod HR wedi cytuno fis diwethaf i ddilyn mater Parcio yn y rhes.<br><br>**c) <u>PONT BRO WYLED – CAIS GAN UN O DRIGOLION RHOSTRYFAN</u>**<br>Adroddodd y clerc bydd peirianwyr strwythurau'r Cyngor Sir yn cynnal asesiad o'r bwlch rhwng parapet y bont a'r ffens / wal ddwy ochr iddi. Os oes angen gwaith i gywiro problem, yna bydd trefniadau yn cael ei gwneud. Roedd wedi gofyn am ddiweddariad ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn. |

| | |
|---|---|
| | **d) CAE CHWARAE RHOSTRYFAN**<br>Roedd y clerc wedi gyrru blaen I GL. Jones ond nid oedd wedi derbyn amcan bris oherwydd salwch yn y gweithlu.<br><br>**e) GW – MYNWENT CEFNFAES – REILIAU WEDI EU GOSOD O AMGYLCH CARREG FEDD**<br>Y clerc i yrru llythyr ar ran y Cadeirydd<br>NE - Angen trafod clirio'r llwybrau ac ail osod cerrig - y clerc i drefnu cyfarfod gyda'r darparwr<br>AHR - Wedi derbyn cwyn gan deulu am ddirywiad y fynwent - gyrru llythyru yn cadarnhau gweithrediad y Cyngor.<br><br>**f) TE - GIÂT FACH LON EIFION YN CAEL EI GADAEL YN AGORED**<br>Bydd y Swyddog yn holi ei arweinydd am argymhellion.<br><br>**g) TE- PARCIO YN LLANWNDA**<br>Nid oedd HR yn bresennol i gynnig diweddariad |
| 5. | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | a) **C23/0714/24/DT - 2, UWCH MENAI, SARON, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 5UN**<br>Gosod 2 ffenestr PVC yn mesur 0.600 x 0.300 yn drychiad talcen / ochr y tŷ -<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>**b) APEL - CAS-02548-C6B3D9 C22/0876/24/LL**<br>Cyn-gronfa ddŵr, Tir Ger Pen Y Ceunant, Rhostryfan, LL54 7LU<br>Rhannodd y clerc resymau gwrthwynebiad y Pwyllgor Apêl. |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a) CANLYNIAD ETHOLIAD WARD RHOSTRYFAN**<br>Rhoddwyd croeso cynnes i Dyfan Thomas sydd wedi ei Ethol fel Aelod ar sedd Rhostryfan.<br><br>**b) MYNWENT CEFNFAES - FFENS YR ESTYNIAD / FFENS GORFFWYSER PLANT / BWLCH Y WAL GEFN**<br>Gwaith wedi ei gwblhau ar ffens yr estyniad - defnyddiau ychwanegol i gau bwlch yn cael eu cadw yng Ngilwern Uchaf. Taliad i'w gymeradwyo.<br>Defnyddiau wedi ei dderbyn ar gyfer Gorffwyser plant, gwaith i gychwyn yn fuan.<br>Gwaith ail godi'r wal wedi ei gwblhau - taliad i'w gymeradwyo<br><br>**c) CAE CHWARAE RHOSGADFAN – CROGCHWYN – GWYBODAETH GAN UN LLAIS CYMRU**<br>Gwaith gwistrellu'r crog chwyn wedi ei gwblhau am eleni. Taliad I'w gymeradwyo.<br>Adroddodd y clerc argymhellion parthed y Cae Chware gan Un Llais Cymru<br><br>**d) GOLYGFA LON WEN**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi methu a chael ymateb gan asiant y Goron yn Saviills, Gaer. Wedi cysylltu ag Adran Ymholiadau y Goron, heb dderbyn unrhyw ymateb - wedi cysylltu nôl gyda swyddog y Cyngor Sir yn gofyn am argymhellion.<br><br>**e) CARREG LECHEN GRAIANFRYN**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan un o drigolion Llanwnda yn adrodd niwed i lechen Graianfryn sydd ar gylchfan Llanwnda. Mae un ochr wedi disgyn, y coed ar ei gefn yn pydru.<br>Y clerc i dderbyn pris<br><br>**h) DIWEDDARIADAU GAN Y SWYDDOG LLWYBRAU**<br>• Cwyn wedi ei dderbyn am rwystr ar lwybr o Ddinas heibio Plas Bodaden sydd yn dod allan ger Mynwent Cefnfaes - Gwaith I sefydlu giât mochyn ar y rhaglen waith . |

| | |
|---|---|
| | • Cwyn wedi ei dderbyn am broblem gwrgymdeithasol ar lwybr hanesyddol yn Rhosgadfan – mater gorfodaeth – perchennog yn newid rhediad y llwybr ac yn bygwth cerddwyr hefo cwn peryg.<br><br>• Camfa Hen Gastell wedi ei ail sefydlu - sylwadau gan y clerc ei bod wedi cysylltu yn gofyn am giât mochyn wrth gysidro mae henoed sydd yn defnyddio'r llwybr.<br><br>• Pont Maestryfan - Gwaith yn cael ei ddal yn ôl oherwydd newidiadau cyson<br><br>**f) <u>HYFFORDDIANT</u>**<br>Rhannwyd rhestr Hyfforddiant fis Tachwedd - yr aelodau i ddiweddaru'r clerc o'i dymuniadau |
| 7. | **ADRODDIADAU** |
| | Adroddodd y clerc ddiweddariadau oedd wedi ei derbyn gan HR<br><br>**a) <u>CYNG. HUW ROWLANDS</u>**<br><br>i. <u>Llwybr Bryngwyn</u><br>Wedi pori trwy'r ffeilia mai'n ymddangos doedd yna ddim bwriad fod Cyngor Gwynedd yn mynd i gymryd drosodd cynnal a chadw'r llwybr yn y tymor hir.<br>Ymddengys eu bod hwy yn cynorthwyo'r Cyngor Cymuned i hawl tramwy dros y llwybr, ond doedd dim bwriad i Gyngor Gwynedd gymryd cyfrifoldeb cynnal a chadw yn y tymor hir.<br>Mae'n gobeithio cyfarfod a Gwyn Lloyd Evans wythnos nesaf i drafod.<br><br>ii. <u>Gwella diogelwch mynediad i Ysgol Rhostryfan.</u><br>Roedd wedi cyfarfod a dau o swyddogion Cyngor Gwynedd, mi fydd Cyngor Gwynedd yn edrych ar ba geisiadau sydd ganddynt fyddai fwyaf tebygol o lwyddo i gael arian gan Lywodraeth Cymru, ac yn gwneud cais am grant tua mis Tachwedd, ond gan fod yna gymaint o geisiadau tebyg, nid oedd yn hyderus o lwyddiant.<br><br>iii. <u>Tîm Tacluso</u><br>Roedd tîm tacluso ardal ni i fod i ymweld â Ffrwd Cae Du a Dinas a Llanwnda ddydd Llun i wneud gwaith tacluso. Roedd wedi bod o gwmpas gyda'r arweinydd er mwyn gweld beth oedd angen ei wneud, rhan o'r gwaith oedd cael gwared â'r tyfiant sy'n culhau'r pafin rhwng Ffrwd Cae Du a Dinas.<br>Er bod eu Lori wedi bod o gwmpas ddydd Llun, nid oedd yn ymddangos bod y Gwaith wedi ei wneud. Felly bydd yn dilyn y mater.<br><br>iv. <u>Gorfodaeth Cynllunio</u><br>Roedd wedi gwneud cwyn i Gyngor Gwynedd am eu diffygion yn mynd ar ôl materion gorfodaeth cynllunio. Tri mater ganddo ar y gweill ers rhai misoedd a dim yn digwydd. Wedi cael addewid y bydd yn cael ateb erbyn diwedd Hydref, ond mae prinder staff yn yr adran gorfodaeth. Efallai y dylai'r Cyngor Cymuned deg i bryder i Gyngor Gwynedd am ddiffyg staff a gallu'r adran gynllunio i ddelio efo materion gorfodaeth?<br><br>v. <u>Fforwm Ardal Gwyrfai</u><br>Roedd wedi mynychu Fforwm Ardal Gwyrfai, ble y trafodwyd materion efo'r Heddlu a'r problemau casglu sbwriel.<br><br>vi. <u>Meinciau</u><br>Rhannodd luniau'r meinciau, byddai'r rhan fwyaf yn iawn a chot ffres o baent/creosot. |

vii. Cais wedi ei dderbyn gan Gyngor Cymuned Pistyll –
Cynnig : Diwygio Amodau Tai Teg – gan nad oedd HR yn bresennol cytunodd HR drafod y mater gyda'r Cynghorydd Jina Gwyrfai.

**b) CYNG. ARWYN HERALD ROBERTS**

i. Adroddodd am gyfnod heriol i gadw gorsaf dan Lanberis.

ii. Ambiwlans Awyr
Gofynnodd am gefnogaeth yr aelodau ar opsiwn 6

iii. Priffyrdd
Dim gwaith wedi ei gynnal yn lleol ers 2 flynedd.
Roedd wedi cyfarfod a Swyddogion Cabinet a Phennaeth Priffyrdd I drafod cyflwr y lon o Siop William I'r Fynwent, gridiau gwartheg. Yr adran wedi cytuno glanhau'r lon, ffosydd a bollards sy'n rhedeg at Fynwent Pen y Bryn.

iv. Bro Cadfan - tyllau yn ffordd
Bydd y Cyngor Sir yn trafod gyda Chwmni Adra gyda bwriad cytuno a gosod rhaglen waith yn y 10 diwrnod nesaf.

v. Cae Gors
Cynllun panad a sgwrs, arian wedi ei dderbyn i greu cwrs gwledda a bywyd natur tan ddiwedd Rhagfyr.

vi. Canolfan y Fron
Tair mil wedi ei dderbyn - bwyd am ddim ar ddydd Mercher rhwng 12 ag 1

vii. Adran Gwyrfai
Wedi cael trafodaeth ar heddlu - canmol gwaith gwrthgymdeithasol Caernarfon - pryderus bod torgyfraeth Llanwnda wedi cynyddu 8% ers 3 mis - lladrata a thorri mewn i dai a siediau - beics modur ar y mynydd.
Wedi cytuno bydd mwy o heddlu ar gael yn y mis nesaf.
Cwynion am fan gyda phedwar bachgen yn dwyn beics ac yn cnocio ar ddrysau.

8. **MATERION ARIANNOL**

**a) CYSONIAD 2023/24**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **28.03.23** | **CYFRIF CYFREDOL** | | **£10,620.60** |
| **29.03.23** | **CYFRIF CADW** | **+** | **£63,581.85** |
| **01.04.23** | **TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **-** | **£1,190.00** |
| **2023/2024** | **GWARGED** | **+** | **-£5,953.55** |
| | | **=** | **£67,058.90** |

**b) DATGANIADAU'R BANC**

-

**Cyfrif Cadw - 30 o Fai i 28 o Awst 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£63,794.79** |
| Derbyniadau | + | £262.22 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£64,057.01** |

**Cyfrif Cyfredol - 29 o Fehefin i 28 o Awst 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£5,328.36** |
| Derbyniadau | + | £15,000.00 |
| Gwariant | - | £669.08 |
| Balans Cau | = | **£19,659.28** |

**CYFANSWM Y DDAU GYFRIF = £83,716.29**

**Llai Taliadau Heb Ymddangos ar y Datganiadau**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.04.23 | TCDLL | **101704** | £100.00 |
| 20.09.23 | Un Llais Cymru | **101715** | £350.00 |
| 20.09.23 | Cyngor Gwynedd | **101716** | £288.00 |
| 20.09.23 | A. Hughes Jones Dyson | **101717** | £216.00 |
| | | = | **£954.00** |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18.10.23 | Cyflog a Threuliau Clerc | **101718** | £670.59 |
| 18.10.23 | Giles Elliot | **101719** | £400.00 |
| 18.10.23 | North Wales Fencing | **101720** | £13,912.80 |
| 18.10.23 | Ceri Jones | **101721** | £720.00 |
| | | = | **£15,703.39** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY = £67,058.90**

9. **GOHEBIAETH**

Rhannwyd yr ohebiaeth isod

a) Cronfa Grymuso Gwynedd
b) Llais Teuluoedd – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
c) Cyflwyniad gan Rhian Hughes - Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor
d) Ail gam Ymgysylltu â Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru i'w gynnal ym mis Hydref
e) Dyddiadau Hyfforddiant Hydref / Tachwedd
f) Bwletin newyddion un Llais Cymru
g) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Arfon) (Cyfyngiad Cyflymder 30 M.Y.A.) 2023

| | |
|---|---|
| | h) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Amryw Ffyrdd Sirol, Ardal Arfon) (Cyfyngiad Cyflymder 20 M.Y.A.) 2023 |
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a) <u>GWEFAN Y CYNGOR</u>**<br>Diolchodd y Cadeirydd y clerc am sefydlu a chynnal gwefan newydd i'r Cyngor sef:<br>https://cyngorcymunedllanwnda.co.uk/<br>Roedd AHR wedi rhannu lluniau o'r ardal ar gyfer y wefan.<br><br>**b) <u>MW - BINIAU HALEN</u>**<br>Adroddodd MW nad oedd dim wedi digwydd parthed ail sefydlu binnau halen - AHR am ddilyn y mater.<br><br>**c) <u>MW - DWR YN RHEDEG O ROSTRYFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**d) <u>GVT - LLIFOGYDD I FYNEDFA BRYN DERWEN AC WERNLAS DDU RHOSTRYFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**e) <u>GVT - MAENOL RHWNG FRONDDU A THŶ CRWN RHOSGADFAN</u>**<br>Maenol a chyfer rhad di colapsio - Y clerc i ofyn i'r Cyngor Sir Cyngor lythyru a'r perchennog i wneud y gwaith<br><br>**f) <u>GVT – TIR NEWYDD MYNWENT CEFNFAES</u>**<br>Adroddodd GVT bydd angen contract gyda phorwyr tir y Fynwent - hefyd angen ei ychwanegu i restr yswiriant y Cyngor - Y clerc i ofyn am argymhellion Undeb Amaethwyr Cymru.<br><br>**g) <u>GVT - UWCHFFYNNON</u>**<br>Pam fod cwch ar y comin, y clerc i ofyn i'r Cyngor Sir<br><br>**h) <u>LLWYBR HEIBIO'R FYNWENT</u>**<br>Gôr dyfiant angen ei dorri - y Clerc I adrodd I Wyn Williams<br><br>**i) <u>JH – TWLL YN Y FFORDD RHWNG PONT WERNLAS DDU A RHOSTRYFAN</u>**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**j) <u>NE – CROGCHWYN GER PENISAR RHOS A MYNWENT CEFNFAES</u>**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**k) <u>NE - CYNLLUN GORSAF BENYGROES</u>**<br>Holwyd os oedd son bod Rhostryfan ar y cynllyn - AHR am holi<br><br>**l) <u>GIÂT BODADEN</u>**<br>Reiliau I fod yn cae – gordyfiant ofnadwy<br><br>**m) <u>GW- LLIFOGYDD</u>**<br>Dwr o Dai Minffordd yn Rhosisaf heibio Bryn Siriol I'r sgwâr |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 15 o Dachwedd, 2023 – Cae Gors – 7y.h |